# GWELLA EICH TAITH CANSER YM MHOWYS

**(Rhaglen GDC ym Mhowys)**

**A ydych yn breswylydd o Bowys sydd wedi derbyn diagnosis o ganser yn ddiweddar? NEU**
**A ydych yn cefnogi anwylyd gyda diagnosis?**
**Yn ansicr lle i droi am gefnogaeth, cyngor, neu wybodaeth leol?**

Os mai eich ateb oedd "ydw", ffoniwch un o'n gweithwyr cyswllt hyfforddedig a dweud eich bod yn byw gyda chanser ac yr hoffech dderbyn ychydig o gefnogaeth.
Mae ein gweithwyr cyswllt wedi'u lleoli yn Ymddiriedolaeth Bracken, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol a Credu – gweler eu rhifau ffôn isod.

Mae ein canllaw 3 cham (isod) yn esbonio'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn ffonio.

## 1 Yn gyntaf, fe fyddwn yn gofyn i chi:




**llenwi a dychwelyd rhestr wirio pryderon syml am sut yr ydych yn teimlo ar yr union adeg hon fel y gallwn edrych ar gefnogaeth a all helpu.**

*Gellir llenwi'r rhestr wirio ar-lein neu ar ffurf papur*

## 2 Nesaf fe fyddwn yn:



**trefnu amser a dyddiad addas fel y gallwch gael sgwrs fanwl gydag un o'n gweithwyr cyswllt hyfforddedig.**

*Gall y sgwrs fod dros y ffôn, yn bersonol neu wedi'i chynnal yn rhithiol*

## 3 Wedi hynny, fe fyddwn yn:



**llunio cynllun gyda'n gilydd sydd wedi'i deilwra i'ch anghenion sy'n eich cysylltu chi gyda'r gwasanaethau cywir ac sy'n cynnwys cyngor a chefnogaeth i'ch cefnogi chi.**

*Gallwch gael mynediad at y cynllun hwn ar-lein neu gael copi papur*

***Ymddiriedolaeth Bracken - 01597 823646***

***Cysylltwyr Cymunedol PAVO - 01597 828649***

***Credu - 01597 823800***

https://cy.powysrpb.org/icjpowys

**Rhaglen Gwella'r Daith Canser ym Mhowys**

Powys

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

MACMILLAN CANCER SUPPORT
CYMORTH CANSER MACMILLAN